Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)

## Datganiad o Fwriad Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth

13 Chwefror 2023

## Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)

## Datganiad o Fwriad Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth

### Cyflwyniad

1. Mae'r ddogfen hon yn dynodi'r bwriad polisi presennol ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth y byddai gan Weinidogion Cymru y grym i'w gwneud yn rhinwedd y diwygiadau a wneir i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a Deddf Caffael 2023 (Bil sy'n mynd drwy Senedd y DU ar hyn o bryd, ac a allai fod yn destun gwelliannau pellach wrth i'r Bil fynd drwy'r broses seneddol) gan Fil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) ("y Bil").

2. Lluniwyd y Datganiad i gynorthwyo pwyllgorau wrth iddynt graffu ar y Bil. Dylid ei ddarllen ar y cyd â'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol a'r Nodiadau Esboniadol cysylltiedig. Mae manylion llawn am weithdrefn Senedd Cymru ("y Senedd") sy'n gysylltiedig â phob un o'r pwerau hyn wedi eu nodi yn Nhabl 1 ym Mhennod 5 o'r Memorandwm Esboniadol ac nid ydynt yn cael eu hailadrodd yn y ddogfen hon.

3. Mae'r Bil yn darparu pwerau mewn deddfwriaeth sylfaenol i alluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno is-ddeddfwriaeth i gyflwyno cyfundrefn gaffael newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd a ddarperir fel rhan o'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Wrth ddatblygu is-ddeddfwriaeth, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda GIG Cymru a rhanddeiliaid i sicrhau bod y darpariaethau'n berthnasol, yn ddilys ac yn gymesur.

4. Yn gryno, mae darpariaethau'r Bil yn seiliedig ar y ddau bŵer canlynol:
    i. "Pŵer datgymhwyso" i alluogi Gweinidogion Cymru i ddatgymhwyso, drwy reoliadau, ddarpariaethau yn y Ddeddf Caffael a fyddai (wedi iddi gael ei phasio) fel arall yn gymwys i gaffael gwasanaethau iechyd GIG yng Nghymru; a
    ii. "Pŵer creu" i alluogi Gweinidogion Cymru i ddatblygu a gweithredu cyfundrefn gaffael amgen newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd GIG yng Nghymru, a hynny drwy is-ddeddfwriaeth.

5. Mae tabl sy'n disgrifio'r pŵer a'r bwriad polisi ar gael yn **Atodiad A**.

## Atodiad A

| Adran o'r Bil | Disgrifiad o'r pŵer | Rheswm dros y pŵer, a'i fwriad polisi |
|---|---|---|
| **Pŵer i ddatgymhwyso darpariaethau yn Neddf Caffael 2023 mewn perthynas â chaffael GIG yng Nghymru ("pŵer datgymhwyso")** | | |
| 2 | Pŵer i Weinidogion Cymru ddatgymhwyso darpariaethau yn Neddf Caffael 2023, i'r graddau y maent yn anghyson â darpariaethau amgen a wneir mewn cysylltiad â chaffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru. Mae hyn i'w wneud drwy fewnosod adran newydd (y bwriedir iddi fod yn adran 116A ar hyn o bryd) yn Neddf Caffael 2023 Llywodraeth y DU.<br><br>Mae is-adran (1) o'r adran newydd 116A yn darparu'r pŵer y cyfeirir ato uchod i Weinidogion Cymru, sydd i'w arfer drwy wneud rheoliadau (drwy offeryn statudol).<br><br>Nid yw'r pŵer ond yn gymwys i 'gaffael gwasanaethau iechyd wedi ei reoleiddio yng Nghymru' ('*regulated health service procurement in Wales*'). Mae is-adran (2)(a) o'r adran newydd 116A yn diffinio hyn fel caffael nwyddau a gwasanaethau a gyflawnir gan 'awdurdod | **Rheswm dros y pŵer:**<br>Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddatgymhwyso deddfwriaeth gaffael mewn perthynas â chaffael gwasanaethau iechyd GIG wedi ei reoleiddio yng Nghymru. Mae'r pŵer datgymhwyso yn angenrheidiol er mwyn sicrhau nad oes gorgyffwrdd rhwng darpariaethau Deddf Caffael 2023 a'r gyfundrefn caffael gwasanaethau iechyd newydd ar gyfer Cymru sydd i'w sefydlu gan y rheoliadau dilynol.<br><br>**Bwriad polisi'r pŵer:**<br>Bydd y pŵer yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddatgymhwyso darpariaethau yn y Bil Caffael a fyddai fel arall yn gymwys i gaffael gwasanaethau iechyd GIG yng Nghymru i'r graddau y mae darpariaeth amgen wedi ei gwneud yn hynny o beth yn unol â'r pŵer creu a ddisgrifir isod. Nid dadreoleiddio gwasanaethau iechyd yng Nghymru yw bwriad y pŵer hwn; yn hytrach, ei fwriad yw datgymhwyso deddfwriaeth gaffael pan fo caffael |

| | | |
|---|---|---|
| | perthnasol' ('*relevant authority*') sy'n ddarostyngedig i ddarpariaethau a wneir gan reoliadau o dan adran newydd 10A sydd i'w mewnosod yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Mae i 'awdurdod perthnasol' yr ystyr a roddir iddo yn yr adran newydd 10A (gweler isod i gael rhagor o fanylion). | gwasanaethau at ddibenion y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn cael ei reoleiddio o dan y gyfundrefn newydd.<br><br>Mae'r diffiniad o 'awdurdod perthnasol' yn cael ei adlewyrchu yn y "pŵer creu" a ddisgrifir isod.<br><br>Bydd y rheoliadau'n dilyn y **weithdrefn gadarnhaol ddrafft** ac felly byddant yn ddarostyngedig i graffu gan y Senedd ac i gytundeb y Senedd. |
| **Pŵer i ddatblygu a gweithredu cyfundrefn gaffael newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru ("pŵer creu")** | | |
| 3 | Pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n nodi'r gofynion sy'n gymwys i awdurdodau perthnasol mewn perthynas â chaffael gwasanaethau a ddarperir fel rhan o'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru, yn ogystal â nwyddau a gwasanaethau eraill sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau iechyd hynny.<br><br>Bydd hyn yn cael ei wneud drwy ddiwygio Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 i fewnosod adran newydd (adran 10A). | **Rheswm dros y pŵer:**<br>Mae'r pŵer creu hwn yn angenrheidiol i wneud rheoliadau sy'n gosod gofynion ar awdurdodau perthnasol mewn perthynas â chaffael gwasanaethau iechyd at ddibenion y gwasanaeth iechyd yng Nghymru.<br><br>Un o brif ddibenion cymryd y pŵer yw rhoi opsiwn i sefydlu cyfundrefn caffael gwasanaethau iechyd newydd sydd, i raddau, yn alinio â chynigion a gyflwynir gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) yn Lloegr, o'r enw'r Gyfundrefn Dethol Darparwyr ('*Provider Selection Regime*' neu PSR)[1]. |

[1] Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr: ymgynghoriad ategol ar fanylion y cynigion ar gyfer rheoliadau - GOV.UK (www.gov.uk)

| | | |
|---|---|---|
| | | Nid yw'r pŵer creu yn y Bil yn rhagnodi manylion ynghylch cynnwys unrhyw gyfundrefn caffael gwasanaethau iechyd newydd ac mae manylion terfynol y rheoliadau PSR a'r canllawiau gweithredol cysylltiedig wrthi'n cael eu datblygu gan DHSC. Felly, i roi'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru addasu'n briodol unwaith y mae manylion terfynol y PSR arfaethedig yn Lloegr yn hysbys, bydd cynnwys y gyfundrefn newydd arfaethedig yn cael ei ddatblygu fel rhan o'r rheoliadau yn y dyfodol a chanllawiau gweithredol y gyfundrefn newydd. Bydd hyn hefyd yn darparu elfen o hyblygrwydd i lunio'r gyfundrefn newydd i ddiwallu heriau ac anghenion dinasyddion Cymru yn y dyfodol.<br><br>**Bwriad polisi'r pŵer:**<br>Nod cyflwyno'r PSR yn Lloegr yw rhoi'r hyblygrwydd i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn GIG Lloegr a sefydliadau llywodraeth leol yn Lloegr drefnu gwasanaethau iechyd sy'n hyrwyddo orau fuddiannau cleifion a'r boblogaeth yn eu hardaloedd, yn ogystal ag ystyried y gwerth am arian cyhoeddus. Cynigir y bydd y PSR yn symud i ffwrdd o sefyllfa o gystadleuaeth o dan yr holl amgylchiadau, a thuag at system o gydweithio a phartneriaeth gyda darparwyr gwasanaethau iechyd annibynnol.<br><br>O ganlyniad, mae'n bosibl y bydd y newidiadau gweithredol i gaffael gwasanaethau iechyd yn Lloegr o dan y PSR yn cael |

| | | |
|---|---|---|
| | | effaith ar allu GIG Cymru i gynnal a sicrhau gwasanaethau iechyd yng Nghymru, gan gynnwys:<br><br>• Aflunio'r platfform caffael gwasanaethau iechyd cyfochrog presennol rhwng Cymru a Lloegr;<br>• Cyfyngu ar y gallu i gomisiynu gwasanaethau iechyd gan ddarparwyr iechyd ar y cyd rhwng GIG Lloegr a GIG Cymru, a manteision cysylltiedig arbedion maint ariannol ac adnoddau;<br>• Cyfyngu ar GIG Cymru o ran cael mynediad at fframweithiau gwasanaethau gofal iechyd sy'n bodoli eisoes;<br>• Cyfyngu ar awydd cyflenwyr i gyflenwi gwasanaethau iechyd yng Nghymru, er ei bod yn anodd rhagfynegi graddau’r effaith ar hyn o bryd gan y bydd yn dibynnu ar ffactorau megis ymateb y farchnad a chyflenwyr i’r newidiadau a gyflwynir.<br><br>**Bwriad polisi posibl rheoliadau yn y dyfodol:**<br>Bydd y rheoliadau yn y dyfodol yn ceisio lleddfu’r effeithiau a ddisgrifir uchod drwy ddatblygu rheoliadau a chyfundrefn caffael gwasanaethau iechyd newydd yng Nghymru sydd, i raddau, yn alinio â PSR DHSC a gyflwynir yn Lloegr.<br><br>Nod y dull gweithredu hwn fydd sicrhau bod caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru a Lloegr yn parhau i weithredu ar sail debyg. Bydd hyn yn adfer tegwch wrth |

| | | |
|---|---|---|
| | | gaffael, gan sicrhau bod y farchnad yng Nghymru yn parhau'n atyniadol i ddarparwyr gwasanaethau iechyd annibynnol. Bydd hyn yn helpu'r GIG yng Nghymru i gynnal parhad darpariaeth gwasanaethau iechyd i ddinasyddion Cymru.<br><br>Mae DHSC wedi ymgynghori ar ei chynigion o dan y PSR[2] - <u>**gallai**</u> alinio cyfundrefn caffael gwasanaethau iechyd newydd yng Nghymru â'r PSR yn Lloegr gynnwys newidiadau i weithdrefnau caffael gweithredol yng Nghymru, megis:<br><br>• Symud i ffwrdd o sefyllfa o gystadleuaeth yn ddiofyn;<br>• Galluogi trefniadau contractio i barhau gyda darparwr gwasanaeth iechyd presennol o dan amgylchiadau penodol pan asesir bod parhau â'r trefniadau presennol yn fuddiol;<br>• Caniatáu opsiynau ar gyfer dyfarnu'n uniongyrchol gyda darparwr addas a nodir;<br>• Opsiynau i ddilyn proses gaffael gystadleuol newydd pan fo hynny er lles cleifion, trethdalwyr a'r boblogaeth.<br><br>Nod y dulliau gweithredu uchod yw annog mwy o gydweithio a phartneriaethau rhwng y GIG a darparwyr gwasanaethau |

[2] Rhagolwg o gynigion ar gyfer y Gyfundrefn Dethol Darparwyr - GOV.UK (www.gov.uk)

| | | |
|---|---|---|
| | | iechyd annibynnol ac o bosibl roi mwy o hyblygrwydd i barhau ag ymgysylltiad â darparwyr gwasanaethau sy'n bodoli eisoes pan asesir bod y trefniadau presennol yn gweithio'n dda. Bydd hefyd angen i unrhyw newidiadau sicrhau bod gweithdrefnau cyfundrefn gaffael newydd yn seiliedig ar dryloywder, craffu ac atebolrwydd.<br><br>Mewn perthynas â chwmpas 'gwasanaethau iechyd', mae'n debygol y bydd y rheoliadau yn y dyfodol yn ceisio alinio â'r codau geirfa gaffael gyffredin (CPV) sydd wedi'u nodi hyd yma yn y PSR[3]. Bydd yr ystod o wasanaethau sy'n cael ei chynnwys ar y rhestr hon yn cael ei hadolygu wrth ddatblygu rheoliadau yn y dyfodol i ddeall cymhwysedd i wasanaethau iechyd GIG yng Nghymru.<br><br>O dan y Bil, cynigir bod rhaid i ganllawiau statudol gyd-fynd â'r rheoliadau yn y dyfodol, a bod rhaid i 'awdurdodau perthnasol' roi sylw iddynt. Mae 'awdurdodau perthnasol' yn cynnwys cynghorau sir, byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd ac awdurdodau iechyd arbennig yng Nghymru. Bydd canllawiau o'r fath yn cael eu hystyried wrth ddatblygu a chyd-ddylunio'r gyfundrefn newydd a gyflawnir mewn partneriaeth â'r 'awdurdodau perthnasol' sy'n caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru. |

[3] Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr: ymgynghoriad ategol ar fanylion y cynigion ar gyfer rheoliadau - GOV.UK (www.gov.uk)

| | | |
|---|---|---|
| | | Bydd y rheoliadau yn y dyfodol yn dilyn y **weithdrefn gadarnhaol ddrafft** ac felly byddant yn ddarostyngedig i graffu gan y Senedd ac i gytundeb y Senedd. |

| **Gwybodaeth arall** | |
|---|---|
| **Amseriad y ddeddfwriaeth sylfaenol** | Mae’r Bil yn nodi y bydd y ddeddfwriaeth sylfaenol yn dod i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Bil y Cydsyniad Brenhinol.<br><br>Yn amodol ar brydlondeb a chanlyniadau proses graffu'r Senedd, cynigir bod y Bil yn cael y Cydsyniad Brenhinol yn haf 2023. |
| **Amseriad yr is-ddeddfwriaeth arfaethedig a’i gweithredu** | Yn amodol ar y Bil yn dod yn Ddeddf, bydd datblygu is-ddeddfwriaeth a chanllawiau statudol cysylltiedig, a fydd yn cael eu datblygu ar y cyd â'r 'awdurdodau perthnasol' gan gynnwys arweinwyr caffael GIG Cymru, yn dechrau ar ôl y Cydsyniad Brenhinol.<br><br>Bydd cyfnod ymgynghori cyhoeddus o 12 wythnos ar egwyddorion gweithredol cyfundrefn caffael gwasanaethau iechyd newydd ar gyfer Cymru yn cael ei gynnal.<br><br>Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd llunio canllawiau’r gyfundrefn newydd yn dechrau a bydd is-ddeddfwriaeth yn cael ei datblygu a'i gosod gerbron y Senedd. Bydd y rheoliadau'n cael eu gwneud o dan y **weithdrefn gadarnhaol ddrafft** yn y Senedd. |

| | |
|---|---|
| | Yn amodol ar ganlyniad proses graffu’r Senedd, cynigir mai’r nod yw y bydd y rheoliadau caffael gwasanaethau iechyd newydd a chanllawiau’r gyfundrefn yn dod i rym yng ngwanwyn 2024. |